| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 3 Gorffennaf |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | Cynghorydd Hugh Evans/ Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Pharth Cyhoeddus |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gary Williams |
| **Teitl:** | **Gweledigaeth a Strategaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru: Cytundeb Llywodraethu** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am y Cytundeb Llywodraethu sy'n ofynnol i ffurfioli trefniadau cyfansoddiadol a rhoi pwerau gwneud penderfyniadau i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o fewn terfynau rhagnodedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I geisio cymeradwyaeth y Cyngor i'r Cytundeb Llywodraeth hyd yma am ei fod yn ymwneud â threfniadau anweithredol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Y caiff cynnydd ar ddatblygiad Cais Twf ei nodi a'i groesawu.

3.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo bob un o'r trefniadau anweithredol o fewn y Cytundeb Llywodraethu, h.y. y trefniadau ar gyfer Archwilio.

3.3 Y bydd drafft terfynol o'r Cais Twf yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w adolygu a'i ganiatáu ym mis Medi/Hydref cyn cyrraedd y cam Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.

3.4 Y caiff awdurdod dirprwyedig ei roi i'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a Pharth Cyhoeddus a'r Pennaeth Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, yn cwblhau telerau'r Cytundeb Llywodraethu yn gyson i raddau helaeth â'r drafft a atodwyd i'r adroddiad hwn.

3.5 Bod y Cyngor yn cymeradwyo cynnwys yn y Cyfansoddiad y trefniadau gweithredol sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet ynghyd â'r trefniadau anweithredol yn ymwneud ag Archwilio.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Ym mis Medi 2016, derbyniodd y Cabinet 'Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru' a osododd uchelgais gofynnol a strategol i Ogledd Cymru. Cafodd y Strategaeth ei dderbyn yn yr un modd gan Gabinetau 5 Awdurdod Lleol arall y rhanbarth.

Ym mis Chwefror 2017, hysbyswyd y Cabinet bod Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth i fod yn Gais Twf am fuddsoddiad a chadarnhad o bwerau i'r rhanbarth gan y DU a Llywodraeth Cymru. Ar y pryd, cytunwyd mai cydbwyllgor statudol oedd y model llywodraethu a ffafriwyd.

Ym mis Medi 2018, cadarnhaodd y Cabinet ei gefnogaeth ar gyfer y model cydbwyllgor a rhoddwyd awdurdod i'r Arweinydd i weithredu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gydbwyllgor cysgodol am gyfnod interim.

Derbyniodd yr aelodau frîff ar ddatblygiad y Cais Twf ar 12 Mawrth 2018 mewn Cyfarfod Briffio'r Cyngor.

Mae gofyn cael Cytundeb Llywodraethu i ffurfioli'r trefniadau cyfansoddiadol a rhoi pŵer i wneud penderfyniadau i'r cydbwyllgor hwn o fewn terfynau rhagnodedig. Caiff y cydbwyllgor ei adnabod fel "Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru"

Bydd Cabinetau a Chynghorau bob un o'r 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn ystyried cynnwys yr adroddiad templed sydd wedi ei atodi i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1. Mae'r atodiad yn darparu manylion pellach ynglŷn â chefndir y cytundeb llywodraethu.

Mae Drafft y Cytundeb Llywodraethu, a atodwyd i'r adroddiad hwn fel Atodiad 2, yn ymdrin â threfniadau gweithredol yn ogystal â rhai anweithredol. Cymeradwywyd telerau'r Cytundeb Llywodraethu a'r cyfarfod ar y 26 Mehefin 2018 cyn belled â'u bod yn ymdrin â'r trefniadau gweithredol, ac argymhellwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r trefniadau anweithredol.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth o'r trefniadau anweithredol sydd wedi eu cynnwys o fewn yr adroddiad a chynnwys y rhain a'r trefniadau gweithredol yn y Cyfansoddiad.

Nid oes ymgais yn yr adroddiad hwn i gyflwyno cynnwys y Cais Twf sy'n cael ei ddatblygu yn fanwl oherwydd ei brif bwrpas yw cyflwyno Cytundeb Llywodraethu i gael ei dderbyn. Bydd adroddiad pellach i'r Cyngor ym mis Medi neu Hydref y flwyddyn hon yn cynnwys manylion am ddrafft terfynol y Cais Twf i'w hadolygu a'i chaniatáu cyn cyrraedd cam Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy Lywodraeth.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Caiff y Cais Twf ei seilio ar themâu sy'n unol â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

**6. Faint fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae Cais Twf yn fuddsoddiad enfawr mewn rhanbarth gan Lywodraethau gyda sawl risg a sawl mantais wedi eu rhannu â'r awdurdodau lleol a'u partneriaid yn y rhanbarth. Mae uchafswm buddsoddiad yn ystyriaeth bwysig wrth gynllunio'r Cais. Caiff goblygiadau llawn y Cais Twf posibl eu hadrodd yn ystod cam Penawdau'r Telerau.

**7. Beth yw prif gynnwys yr Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Nid oes angen cymeradwyaeth gan y Llywodraeth am asesiad o'r effaith ar les.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae datblygiad cynnwys y Cais Twf yn broses gynhwysol gyda chyfranogiad sylweddol ar draws y sectorau cyhoeddus a busnes.

Mae brîff wedi ei ddarparu i'r Cynghorwyr ar fwriad strategol y Strategaeth a Gweledigaeth ar gyfer Twf ac ar ddatblygiad y Cais Twf.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid?**

Mae gofyn cael cytundeb llywodraethu i ffurfioli'r trefniadau sy'n cefnogi'r model a ffafrir o gydbwyllgor. Mae'n hanfodol bod trefniadau llywodraethu clir a chadarn wedi eu gosod i gefnogi datblygiad y Cais Twf ar draws y rhanbarth. Dylai'r gost o weinyddu llywodraethu ehangach o amgylch y Cais fod yn gymesur â'r risgiau amlwg, eu cymhlethdod a'u graddfa. Bydd angen i'r cyngor a'i holl bartneriaid roi ystyriaeth ofalus i gamau nesaf datblygiad y Cais Twf oherwydd bydd costau prosiectau posibl a'r amrediad o gyfraniadau ariannol yn dod yn gliriach.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd asesiad risg llawn o'r Cais Twf posibl yn cael ei adrodd yn ystod cam Penawdau'r Telerau. Caiff dadansoddiad risg eu cynnwys wrth fodelu'r achos busnes ar gyfer amserlenni a phrosiectau sy'n rhan o'r Cais datblygu.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

a2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithred) (Rhyddhau Swyddogaethau) (Cymru) Rheoliadau 2002